# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Zoom**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 24 Mawrth 2021

Amser y cyfarfod: 13.30

# 333(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn drwy gynhadledd fideo.
Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddulliau electronig.
Bydd y Llywydd hefyd yn hysbysu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, fod y cyhoedd wedi eu gwahardd rhag bod yn bresennol yn y Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod yn parhau i gael ei ddarlledu'n fyw a bydd cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

## 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021

(5 munud)

**NDM7681** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 4 Gorchymyn Etholiadau Cymru (Darpariaethau Amrywiol) 2021 – Tynnwyd yn ôl

(0 munud)

## 5 Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

(15 munud)

**NDM7678** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1, Yn cymeradwyo Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2021 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

**Dogfennau ategol**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 6 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cydgrynhoi

(5 munud)

**NDM7668** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Biliau Cydgrynhoi', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i cyflwyno Rheol Sefydlog 26C newydd, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 8 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Gadael yr Undeb Ewropeaidd

(5 munud)

**NDM7669** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Gadael yr Undeb Ewropeaidd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 21, 26, 26A, 26B, 27 a 30C, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 9 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Busnes Cynnar yn dilyn Etholiad y Senedd

(5 munud)

**NDM7670** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Busnes Cynnar yn dilyn Etholiad y Senedd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 6, 7, 8 a 17, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes

## 10 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Sub Judice

(5 munud)

**NDM7671** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Sub Judice', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 13.15 a 17.28, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 11 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Adalw'r Senedd

(5 munud)

**NDM7672** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Adalw'r Senedd', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i cyflwyno Rheol Sefydlog 12.3A newydd, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 12 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Aelodaeth Pwyllgorau

(5 munud)

**NDM7673** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Aelodaeth Pwyllgorau', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 17, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes

## 13 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau amrywiol

(5 munud)

**NDM7674** [Elin Jones (Ceredigion)]

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Newidiadau amrywiol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 1, 11 a 20 fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 14 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog dros-dro

(5 munud)

**NDM7675** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Rheolau Sefydlog dros-dro', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 a 34, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Nodi argymhelliad y Pwyllgor Busnes ynghylch defnyddio pleidleisio electronig o bell o dan Reol Sefydlog 34.14A, yn dilyn etholiad y Senedd, gan gynnwys at ddibenion ethol y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd.

## 15 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Diffiniad o Grwpiau Gwleidyddol

(15 munud)

**NDM7676** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Diffiniad o Grwpiau Gwleidyddol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 1, fel y nodir yn Atodiad A adroddiad y Pwyllgor Busnes.

## 16 Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad-Adroddiad 05-21

(15 munud)

**NDM7679** Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad - Adroddiad 05-21 a osodwyd gerbron y Senedd ar 17 Mawrth 2021 yn unol â Rheol Sefydlog 22.9.

2. Yn cymeradwyo'r argymhelliad yn yr adroddiad.

## 17 Cynnig i Gymeradwyo'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd

(5 munud)

**NDM7680** **Jayne Bryant (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Yr adolygiad o'r cod ymddygiad dyddiedig 17 Mawrth 2021 ("yr adroddiad").

2. Yn mabwysiadu'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021, i ddod i rym ar ddechrau'r chweched Senedd.

3. Yn nodi'r canllawiau sy'n cyd-fynd â'r Cod Ymddygiad a nodir yn atodiad A i'r adroddiad.

Pwyllgor Safonau Ymddygiad: Yr Adolygiad o'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Senedd

.

## 18 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol

(60 munud)

**NDM7682** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)**

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2021.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Mawrth 2021.

Ymateb Comisiwn y Senedd i adroddiad y Pwyllgor

Ymateb Cyllid a Thollau EM i adroddiad y Pwyllgor (Saesneg yn unig)

Llythyr gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys at y Pwyllgor Cyllid (Saesneg yn unig)

## 19 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn

(30 munud)

**NDM7667** Nick Ramsay (Mynwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 'Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: Y stori hyd yn hyn', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mawrth 2021.

## 20 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu: Archwilio datganoli darlledu: sut all Cymru feddu ar y cyfryngau sydd eu hangen arni?

(30 munud)

**NDM7666** Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, 'Edrych ar ddatganoli darlledu: sut y gall Cymru gael y cyfryngau y mae eu hangen arni?' Fe'i osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mawrth 2021.

## 21 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Dyfodol Cymru

(30 munud)

**NDM7683** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y ffaith bod llywodraethau olynol Cymru dan arweiniad Llafur wedi methu â gwella cyfleoedd bywyd pobl Cymru.

2. Yn cydnabod bod Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cyfaddef nad ydynt yn gwybod beth y maent yn ei wneud o ran yr economi.

3. Yn nodi bod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud y byddai'n ffôl cael cynllun ar gyfer ôl-groniadau cyn i'r pandemig ddod i ben.

4. Yn nodi ymhellach bod cyn Brif Weinidog Cymru hefyd wedi cyfaddef bod Llafur wedi tynnu ei llygad oddi ar y bêl ar addysg.

5. Yn cydnabod, er mwyn ailadeiladu Cymru, fod angen newid cyfeiriad a chael llywodraeth newydd ar 6 Mai 2021, a fydd yn darparu cynllun adfer i Gymru, sy'n cynnwys:

a) creu 65,000 o swyddi newydd, gydag o leiaf 15,000 o swyddi gwyrdd;

b) mynd i'r afael â'r ôl-groniad mewn amseroedd aros yng Nghymru;

c) rhoi gorau i danariannu ein pobl ifanc;

d) adeiladu'r seilwaith sydd ei angen ar Gymru gan gynnwys ffordd liniaru'r M4 ynghyd ag uwchraddio'r A40 a'r A55;

e) cefnogi pobl gyda chostau byw drwy rewi'r dreth gyngor am ddwy flynedd;

f) rhoi Cymru ar y llwybr tuag at sero net erbyn 2050.

BBC Newyddion - Theresa May claims Welsh Labour betrayed generation of children - 18 Mai 2018 (Saesneg yn unig)

BBC Newyddion - Labour minister: 'We don't know what we're doing on economy' - 25 Mehefin 2019 (Saesneg yn unig)

BBC Newyddion - Covid: Cancer delays 'could cause 2,000 deaths in Wales' - 9 Tachwedd 2020 (Saesneg yn unig)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru, yn wyneb heriau digynsail o ran llymder, Brexit, newid yn yr hinsawdd a Covid-19, wedi:

a) Sefydlu Banc Datblygu Cymru, sicrhau dros 100,000 o brentisiaethau pob oed a darparu ryddhad ardrethi busnes heb ei ail, gan gynnwys dros £580m o ryddhad parhaol i fusnesau bach;

b) Cyflwyno'r Gronfa Triniaethau Newydd, gan sicrhau bod triniaethau sydd newydd eu cymeradwyo ar gael yn y GIG o fewn 13 diwrnod ar gyfartaledd;

c) Gwella canlyniadau PISA ym mhob un o'r tri maes a datblygu cwricwlwm newydd radical ar gyfer ein hysgolion;

d) datgan argyfwng newid yn yr hinsawdd a gosod targed cyfreithiol rwymol cyntaf Cymru i gyflawni allyriadau sero-net;

e) adeiladu 20,000 o gartrefi newydd a chryfhau hawliau'r rhai sy'n rhentu.

2. Yn nodi bod y cyflawniadau llawn wedi'u nodi yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru.
Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru

**Gwelliant 2** Sian Gwenllian (Arfon)
Ychwanegu pwyntiau newydd ar ddiwedd y cynnig:
Yn credu y bydd Cymru dim ond yn adfer yn llwyr drwy ethol llywodraeth newydd a fydd yn gadael i bobl Cymru, nid San Steffan, benderfynu ar ein dyfodol.

Yn credu bod angen newid cyfeiriad ar Gymru drwy ganiatáu i bobl Cymru ddweud eu dweud ynghylch a ddylai Cymru fod yn wlad annibynnol drwy gynnal refferendwm annibyniaeth yn ystod tymor nesaf y Senedd.

**Gwelliant 3** Sian Gwenllian (Arfon)
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, er mwyn ailadeiladu Cymru, y dylai'r Senedd nesaf gael pwerau dros faterion sydd wedi'u cadw yn ôl i San Steffan ar hyn o bryd, gan gynnwys plismona a chyfiawnder, rheilffyrdd, lles, darlledu, prosiectau ynni, ac Ystâd y Goron.

## 22 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM7677** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Hosbisau plant - cronfa achub i Gymru.

## 23 Cyfnod pleidleisio

## 24 Datganiadau i Gloi

(30 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am Time Not Specified, Date Not Specified

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 17/03/2021 i'w hateb ar 24/03/2021

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

1 OQ56475 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu ysgol feddygol yng ngogledd Cymru?

**Neil McEvoy** *Canol De Cymru*

2 OQ56498 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am farwolaethau mewn cartrefi gofal o ganlyniad i COVID-19 yng Nghymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

3 OQ56499 **(e)**

Pa gamau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru?

**Angela Burns** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

4 OQ56492 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at driniaethau canser yn dilyn pandemig COVID-19?

**Leanne Wood** *Rhondda*

5 OQ56505 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau iechyd i bobl yn y Rhondda?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6 OQ56476 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y ddarpariaeth o ofal sylfaenol yn ardal Llanharan?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

7 OQ56500 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfraddau heintio COVID-19 yn Nwyrain De Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

8

## OQ56478 (e)

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau iechyd i bobl Sir Benfro?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

9

## OQ56503 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i fonitro amrywiolion newydd o feirws SARS-CoV-2?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

10

## OQ56501 (w)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am recriwtio nyrsys yng Ngogledd Cymru?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

11

## OQ56495 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am adolygiad cyflogau'r GIG?

# GWEINIDOG IECHYD MEDDWL, LLESIANT A'R GYMRAEG

**Dai Lloyd** *Gorllewin De Cymru*

1

## OQ56485 (e)

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogi llesiant ac iechyd meddwl yng Ngorllewin De Cymru?

**Jack Sargeant** *Alun a Glannau Dyfrdwy*

2

## OQ56488 (e)

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo pobl sy'n dioddef o orbryder yn dilyn y cyfyngiadau symud?

**Helen Mary Jones** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

3

## OQ56486 (e)

A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynigion i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

4 OQ56497 **(e)**

Beth yw polisïau Llywodraeth Cymru i adeiladu partneriaethau ar gyfer iechyd meddwl da yng Nghymru?

**David Melding** *Canol De Cymru*

5 OQ56493 **(e)**

Pa wasanaethau sydd ar waith i gefnogi pobl sy'n dioddef o byliau o banig a gorbryder?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

6 OQ56477 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi sector y celfyddydau yng Ngogledd Cymru?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

7 OQ56479 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a gynigir i bobl yn Sir Benfro i ddiogelu a gwella eu hiechyd meddwl yn ystod y pandemig?

**Caroline Jones** *Gorllewin De Cymru*

8 OQ56504 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i ymateb i anghenion iechyd meddwl pobl ifanc?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

9 OQ56491 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am hybu llesiant meddwl pobl Ynys Môn?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

10 OQ56502 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Addysg am bwysigrwydd hybu'r Gymraeg mewn perthynas â gwaith llywodraethwyr ysgol?

**Lynne Neagle** *Torfaen*

11 OQ56494 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am atal hunanladdiad ymhlith pobl ifanc yng Nghymru?

**Jenny Rathbone** *Canol Caerdydd*

12 OQ56484 **(e)**

Beth yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu ymyriadau byr i gefnogi pobl sy'n dioddef o orbryder ac iselder?